# Papur ar gyfer y Bwrdd Adfer, 7 Hydref 2020
# Dyfodol y Gymraeg

## Diben y papur hwn

1. Rhoi gwybod i'r Bwrdd Adfer am y risgiau a'r cyfleoedd sy'n codi mewn perthynas â dyfodol y Gymraeg a chyflawni ein strategaeth *Cymraeg 2050* yng ngoleuni pandemig y coronafeirws a'r posibilrwydd o Brexit heb gytundeb.

## Cwmpas

2. Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar yr agweddau sosioieithyddol ar bolisi'r Gymraeg. Nid yw'n ymestyn i faterion yn ymwneud â chydymffurfio â safonau'r Gymraeg a hyrwyddo dwyieithrwydd sefydliadol h.y. darparu gwasanaethau yn Gymraeg/cyfieithu.

## Y cyd-destun

3. Mae polisi'r Gymraeg yn orchwyl hirdymor – ac mae'n ganolog i agenda Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae ein strategaeth *Cymraeg 2050* yn nodi'r camau y mae'n rhaid i ni eu cymryd i gyflawni ein dau brif darged erbyn 2050, sef:
   - cyrraedd 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg1;
   - dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg[2].

4. Mae arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru wrth weithredu'r strategaeth yn gofyn am gyfuniad o:
   - gynllunio ieithyddol ac ymyriadau i newid ymddygiad a arweinir gan Is-adran y Gymraeg;
   - camau gweithredu ar draws meysydd polisi allweddol (addysg, digidol, rhyngwladol a'r economi – gan gynnwys tai, cynllunio, amaethyddiaeth) er mwyn creu amodau economaidd-gymdeithasol ffafriol i hwyluso nodau'r strategaeth.

## Materion allweddol sy'n codi o'r pandemig a Brexit

5. Ers dechrau'r pandemig, yr **heriau tymor byr** a wynebwyd gennym oedd cefnogi gwydnwch tymor byr cyrff sy'n hyrwyddo'r Gymraeg[3], sicrhau bod buddiannau plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg a'u rhieni yn cael sylw yn ystod y cyfnod clo ac yn y broses o ailagor ysgolion, a sicrhau bod y dull ar-lein newydd o ddysgu Cymraeg i oedolion yn cael ei gefnogi. Bydd Is-adran y Gymraeg yn parhau i fonitro, gwella a chryfhau'r dulliau hyn.

6. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni hefyd fynd i'r afael ag **effeithiau tymor canolig a hirdymor** posibl y pandemig a Brexit heb gytundeb ar y Gymraeg yng

---

[1] Yng Nghyfrifiad 2011, dywedodd 562,000 o bobl eu bod yn gallu siarad Cymraeg.
[2] Y targed yw: canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10 y cant (yn 2013–15) i 20 y cant erbyn 2050.
[3] Er enghraifft, yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Mentrau Iaith.

nghyd-destun newidiadau a heriau cymdeithasol ac economaidd ehangach. Bydd effeithiau ledled Cymru, ond mae risg y bydd y rhain yn fwy dwys yn yr ardaloedd hynny yn y gorllewin a'r gogledd-orllewin sydd â chanrannau uchel o siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn peri risg sylweddol i ddyfodol y cymunedau hyn ac, yn ei dro, i ddyfodol y Gymraeg.

## Ein strategaeth *Cymraeg 2050*

7. I gyrraedd ein targedau yn *Cymraeg 2050*, rhaid i ni wneud y canlynol:
    A. **cynnal y cymunedau a'r rhwydweithiau Cymraeg presennol** (daearyddol neu fel arall)
    B. **cynyddu nifer y bobl sy'n dysgu ac yn defnyddio'r Gymraeg yn y dyfodol**.

8. Yn achos A, mae hyn yn golygu cynnal y Gymraeg fel y brif iaith a siaredir yn y gymuned mewn rhannau helaeth o'r gorllewin a'r gogledd-orllewin. O ran B, mae hyn yn golygu cefnogi pobl ledled Cymru i ddod yn siaradwyr Cymraeg newydd drwy ehangu mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg. Mae angen i ni hefyd wella deilliannau ieithyddol mewn addysg cyfrwng Saesneg.

9. Os nad ydym yn cynnal ein cymunedau Cymraeg mae perygl y daw'r Gymraeg yn iaith 'hobi' eilradd lle mae pobl yn caffael y sgil o siarad Cymraeg ond nad ydynt yn ei defnyddio mewn ffordd ystyrlon. Rhaid i ni fod yn wyliadwrus a dysgu'r gwersi o'r sefyllfa yn Iwerddon, lle dywedodd 1.77 miliwn o bobl yn y cyfrifiad diwethaf yn 2016 eu bod yn gallu siarad Gwyddeleg ond dim ond 78,000 a ddywedodd eu bod yn siarad yr iaith bob dydd y tu allan i amgylchedd yr ystafell ddosbarth.

10. Mae iaith yn ffenomen cymdeithasol sy'n gofyn bod cymunedau o siaradwyr yn bodoli er mwyn hwyluso'r defnydd ohoni. Mae'r mapiau yn Atodiad 1 yn dangos dosbarthiad siaradwyr Cymraeg ledled Cymru yn y Cyfrifiad diwethaf yn 2011. Os na chynhelir cymunedau ieithyddol hyfyw yn y gorllewin a'r gogledd-orllewin bydd llai o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd cymdeithasol bob dydd. Bydd hynny, yn ei dro, yn arwain at wanhau'r sylfeini ar gyfer creu siaradwyr newydd ledled Cymru. Felly, gallai dirywiad yn y gorllewin a'r gogledd-orllewin olygu na fyddwn yn cyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr nac yn cyflawni'r uchelgais i ymgorffori'r defnydd o'r iaith yn ein bywydau bob dydd, a gynrychiolir gan y targed i ddyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg.

## Cynnal y cymunedau Cymraeg presennol

11. O gofio'r uchod, mae angen ystyried yn ofalus sut i gynnal yr iaith yn y gorllewin a'r gogledd-orllewin. Mae angen i ni ganolbwyntio ar gynnal gwead cymdeithasol cymunedau Cymraeg eu hiaith ac osgoi creu anghydbwysedd o fewn y cymunedau hynny. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o faterion sydd o bwys strategol i'r iaith.

12. Mae risg Brexit i'r **diwydiant amaeth** yn bryder sylweddol o ystyried mai'r sector amaethyddol yw’r sector o’r economi sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu, gyda 43% o’r gweithwyr yn y sector yn gallu siarad Cymraeg. Ceir amrywiaeth eang rhwng awdurdodau lleol ledled Cymru, gyda chanrannau uchel yng Ngwynedd (86%), Conwy (80%), Ynys Môn (77%), Ceredigion (72%) a Sir Gaerfyrddin (62%). Yn y siroedd hyn, mae amaethyddiaeth yn gyflogaeth bwysig. Bydd crebachu yn y diwydiant amaethyddol yn cael effaith anghymesur ar gymunedau Cymraeg eu hiaith.

13. Mae’r gwaith mapio ar beryglon daearyddol a wnaed gan Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig i effaith bosibl senarios Brexit amrywiol ar ddefnydd tir amaethyddol yn dangos yr effeithiau y gallai trefniadau masnachu newydd eu cael ar amaethyddiaeth yng Nghymru. Amcangyfrifir y byddai gostyngiad o 3% mewn gwaith fferm mawr gyda mynediad i farchnad yr UE yn helpu i sicrhau pontio cymharol esmwyth. Gallai dim Cytundeb Masnach Rydd â’r UE olygu gostyngiad o 10% mewn gwaith fferm mawr, a gallai Cytundebau Masnach Rydd amlochrog gyda gwahanol wledydd olygu gostyngiad o hyd at 27%. Mae’r Adran wedi dechrau gwaith pellach yn ddiweddar i ddiweddaru'r modelau hyn yn fwy manwl er mwyn cymryd i ystyriaeth senarios amrywiol o ran Cytundebau Masnachu Rhydd amlochrog ac ymestyn y modelau i ystyried effeithiau'r pandemig.

14. Yn gyffredinol, mae risg y gallai effaith gronnol Cytundebau Masnach Rydd amlochrog leihau’r cyfleoedd mewn cymunedau Cymraeg gwledig, a gallai hyn leihau’r defnydd o’r Gymraeg.

15. Wrth ystyried effeithiau cronnol posibl Brexit a'r pandemig ar **yr economi yn ehangach**, dylid nodi er nad yw’r diwydiannau sy'n cael eu heffeithio gan Brexit a’r pandemig o reidrwydd yr un peth a bydd gorgyffwrdd o ran y lleoedd a’r sectorau o’r gymdeithas yr effeithir arnynt. Felly, o ran cymunedau gwledig Cymraeg eu hiaith, ceir set hirdymor o risgiau i’r diwydiant amaethyddol o ganlyniad i Brexit ynghyd â set tymor byr o risgiau i'r diwydiant twristiaeth a BBaCh gwledig sy'n gysylltiedig â'r pandemig.

16. Mae'r pandemig hefyd wedi tynnu sylw at y mater sensitif ond arwyddocaol o **effaith perchnogaeth ail gartref** ar gynaliadwyedd cymunedau gwledig, ac yn enwedig cymunedau arfordirol yn y gorllewin a'r gogledd-orllewin. Mae mwy a mwy o bobl yn lleisio pryderon am annhegwch y farchnad dai yn y cymunedau hyn gyda phobl leol yn methu â chael mynediad i'r farchnad yn yr ardaloedd lle cawsant eu magu, ac mae Gweinidogion yn cydnabod hynny. Dengys ystadegau Awdurdodau Cyllid Cymru fod 38% o'r eiddo a werthwyd yng Ngwynedd yn y cyfnod rhwng Mawrth 2019 ac Ebrill 2020 wedi'u prynu fel ail gartrefi.

17. Er bod y pryderon hyn am ail gartrefi yn gyffredin mewn mannau eraill yn y DU a thu hwnt, mae'r ffaith mai ein cymunedau Cymraeg eu hiaith yw llawer o'r cymunedau yr effeithir arnynt yng Nghymru yn golygu bod yn rhaid i ni

ystyried y mater o ongl arall. Mae’n fater cymhleth ag amrywiaeth o ymatebion polisi posibl, ac mae Gweinidogion wedi ymrwymo i’w drafod ag ASau o bob rhan o'r Senedd.

18. Un o fanteision posibl y **targed o 30% ar gyfer gweithio gartref, gweithio o bell a chydweithio** a fabwysiadwyd yn ddiweddar yw y gallai ddenu gweithwyr proffesiynol sy'n siarad Cymraeg i ddychwelyd i ardal eu magwraeth, ar ôl iddynt adael i ddilyn gyrfaoedd mewn mannau eraill. Gall cymudo wythnosol yn hytrach na dyddiol o'r gogledd-orllewin i Gaer, Lerpwl neu Fanceinion – neu o'r de-orllewin i Gaerdydd neu Fryste er enghraifft – fod yn ddigon o gymhelliant i rai pobl ddychwelyd. Yn yr un modd, gallai’r gallu i weithio o bell ei gwneud yn haws i bobl barhau i fyw yn ardal eu magwraeth heb orfod symud i rywle arall yn y lle cyntaf. Mae Is-grŵp Economi Cyngor Partneriaeth y Gymraeg wedi bod yn ystyried ymyriad tebyg i ethos prosiect Llwybro-Routes a fodolai yn y 1990au a'r 2000au i gadw mewn cysylltiad rheolaidd â phobl sydd wedi gadael ardaloedd gwledig am resymau’n ymwneud ag addysg neu gyflogaeth. Fel rhan o’r prosiect hwnnw, dosbarthwyd cylchlythyrau i hysbysebu'r cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael mewn ardaloedd gwledig a Chymraeg eu hiaith.

19. Gyda chynnydd mewn gweithio o bell, bydd yn bwysig sicrhau bod cyfleoedd yn y mannau/canolfannau cydweithio arfaethedig mewn canol trefi i weithwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod y diwrnod gwaith e.e. sgyrsiau anffurfiol. Gall mannau o'r fath hefyd gynnig cyfleoedd da i rwydweithio er mwyn annog cydweithredu o fewn economi leol yr ardaloedd hynny sydd â chanrannau uchel o siaradwyr Cymraeg.

20. Er gwaetha’r cyfle posibl a grybwyllir uchod, mae'r gallu i adleoli i ardaloedd Cymraeg hefyd yn agored i farchnad lawer ehangach o bobl ddi-Gymraeg o fannau eraill yng Nghymru a thu hwnt. Byddai unrhyw gynnydd yn nifer y gweithwyr proffesiynol a'u teuluoedd sy'n adleoli i ardaloedd Cymraeg eu hiaith yn cyflymu'r duedd ar i lawr yng nghanran y boblogaeth yn yr ardaloedd hynny sy'n gallu siarad Cymraeg. Byddai hyn hefyd yn creu her i'r system addysg gan y bydd niferoedd uwch o blant angen trochi hwyr yn y Gymraeg er mwyn integreiddio i ysgolion lleol mewn ffordd nad yw'n newid iaith a chymeriad ieithyddol yr ysgolion hynny. Bydd buddsoddi yn y rhwydwaith o ganolfannau trochi iaith – sy'n darparu addysg drochi dwys am dymor cyn i blant ymuno â'r ysgol leol – yn hollbwysig yn hyn o beth. Bydd rôl bwysig hefyd i'r sector Cymraeg i Oedolion fel gwasanaeth craidd mewn mannau cydweithio newydd sy’n darparu cyfleoedd i bobl ddysgu'r iaith.

## Cynyddu nifer y bobl sy'n dysgu ac yn defnyddio'r Gymraeg

21. Yn genedlaethol, roedd cyfnod y cyfyngiadau symud yn gyfle i fyfyrio ar **addysg cyfrwng Cymraeg**, gan ein hatgoffa o rôl bwysig rhieni o ran cefnogi addysg ein plant. Daeth i’r amlwg fod angen pecyn cymorth mwy pwrpasol ar gyfer rhieni plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg nad ydynt efallai'n siarad Cymraeg, ac mae gwaith wedi dechrau gyda phartneriaid i ddatblygu'r

cymorth hwn. Mae ein hysgolion cyfrwng Cymraeg yn adlewyrchu natur gymhleth ein demograffeg ieithyddol yng Nghymru, sydd weithiau'n gofyn am gymorth gwahanol, cymorth wedi'i deilwra a chymorth ychwanegol. Mae angen i ni sicrhau bod gwerthfawrogiad a dealltwriaeth ar draws y system o'r hyn a olygir wrth ddwyieithrwydd a sut mae plant yn caffael sgiliau iaith yn y Gymraeg a'r Saesneg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae angen i hyn gynnwys cyfathrebu rheolaidd â rhieni ynglŷn â dwyieithrwydd – ac fe wnaeth ein hymgyrch ‘Llond Haf o Gymraeg’ ddechrau’r broses hon.

22. Rydym bellach yn dechrau ar gyfnod o ehangu ar gyfradd na welwyd ei thebyg o'r blaen, a ysgogir gan ein strategaeth *Cymraeg 2050* sy'n cynnwys targed o addysgu 40% o ddysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg erbyn 2050. Ein targed tymor canolig yw sicrhau bod 30% o ddysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2031 (yn 2018/19, roedd 22.8% o ddisgyblion 7 oed mewn addysg cyfrwng Cymraeg). Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod y profiad o addysgu gartref yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud wedi arwain at gynnydd mwy na’r arfer yn y rhieni sy’n penderfynu symud eu plant o addysg cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, rydym yn pryderu y bydd y pandemig yn arafu cyfradd y twf yn gyffredinol o ystyried penderfyniadau posibl gan rieni ac, yn fwy arwyddocaol, y diffyg ffocws gan awdurdodau lleol oherwydd blaenoriaethau eraill ar hyn o bryd. Bydd angen monitro hyn yn agos, yn enwedig os oes posibilrwydd o gyfnodau clo pellach yn y dyfodol.

23. Ar **lefel gymunedol** mae Is-grŵp Defnydd Iaith Cyngor Partneriaeth y Gymraeg wedi comisiynu arolwg cymunedol i effaith y cyfyngiadau o ganlyniad i Covid-19 ar wirfoddoli drwy gyfrwng y Gymraeg a’r defnydd o'r Gymraeg. Bydd y canlyniadau'n llywio ystyriaeth bellach gan yr is-grŵp o’r camau y mae angen i Lywodraeth Cymru a'r Mentrau Iaith (mentrau iaith lleol y trydydd sector) eu cymryd i lunio polisïau er mwyn diogelu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned yn y dyfodol.

24. Yn ogystal â'r pwyntiau cynharach yn y papur hwn, un her allweddol i'r sector **Cymraeg i Oedolion** fydd manteisio ar y cyfle sydd wedi codi ar ôl i’r nifer uchaf erioed o bobl gofrestru i ddysgu Cymraeg yn ystod y cyfyngiadau symud. Mae darparwyr cymunedol bellach yn darparu cyrsiau dysgu cyfunol – gan ddefnyddio cymysgedd o ddosbarthiadau ar-lein gyda thiwtoriaid ac adnoddau ar-lein y gall dysgwyr eu cyrchu pan yn gyfleus iddynt. Ffurfiwyd partneriaeth rhwng y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r darparwr ar-lein *Say Something in Welsh* sy'n ei gwneud yn haws i ddysgwyr newid o un darparwr i'r llall, ac mae hefyd yn darparu cyfres ehangach o adnoddau i ddysgwyr.

## Casgliad

25. Mae'r papur hwn wedi rhoi trosolwg cryno o'r heriau a ragwelir ar gyfer y Gymraeg yn y tymor canolig a’r hirdymor, gan dynnu sylw at y cysylltiadau anorfod rhwng ffactorau economaidd-gymdeithasol a'r defnydd o'r iaith.


26. Mae cynnal ein cymunedau Cymraeg yn allweddol er mwyn i’n strategaeth lwyddo, ac i gyflawni hyn bydd angen cydnabyddiaeth ar draws y Llywodraeth o'u harwyddocâd. Bydd hyn yn gofyn am fwy na chwblhau asesiadau effaith. Mae Is-adran y Gymraeg yn datblygu ein capasiti cynllunio ieithyddol er mwyn cefnogi Cyfarwyddiaethau i fynd i'r afael â materion polisi sydd o bwys strategol i *Cymraeg 2050*. Nid yw hyn yn ymwneud â chydymffurfio, ond yn hytrach rydym am gydweithio ar draws y Cyfarwyddiaethau i gymryd camau cadarnhaol.

27. Bydd rhaglenni gwaith 5 mlynedd nesaf *Cymraeg 2050* yn cael eu llywio gan ein hymateb i Brexit a'r pandemig, ac rydym am iddynt fod yn ymdrech ar draws y Llywodraeth gyfan. Mae'r gwaith hwn eisoes wedi dechrau drwy dri is-grŵp (Addysg, Economi, Cymunedau) Cyngor Partneriaeth y Gymraeg, ac yn cael ei oruchwylio gan Fwrdd Rhaglen *Cymraeg 2050*.


**Is-adran y Gymraeg**
Medi 2020

## Atodiad 1: Dosbarthiad siaradwyr Cymraeg ar draws Cymru

Nifer sy'n gallu siarad Cymraeg fesul cymuned, 2011




Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, fesul AGEHI, 2011




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

193.12-13
**Technoleg a Daearyddiaeth**
© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2013. Cedwir pob hawl.
Llywodraeth Cymru. Rhif trwydded 100021874.